



# Cronfa Grant 'Croeso Cynnes'

## Canllawiau i Ymgeiswyr

Darllenwch y nodiadau hyn cyn cyflwyno'r cais

Cyn cwblhau neu gyflwyno'r cais rydym yn argymhell cysylltu â chynrychiolydd y gronfa yn Mantell Gwynedd  
Am ragor o help neu gyngor, cysylltwch â:  
Carys Williams: [carys@mantellgwynedd.com](mailto:carys@mantellgwynedd.com) 01286 672626

### Trosolwg Grant 'Croeso Cynnes'

2022-2023 yn darparu cyfleoedd grantiau REFENIW:

**Rhwng £1,000 a £5,000.00**  
**DYDDIAD CAU 8fed O RAGFYR 2022**

Bydd rhaid i bob ymgeisydd lenwi a chyflwyno ffurflen gais syml. Bydd yn ofynnol i'ch cais gyd fynd a amcanion y gronfa.

### Sefydliadau Cymwys

Cyn gwneud cais am grant, bydd rhaid i sefydliadau yng **Ngwynedd** fod â chyfansoddiad ysgrifenedig, cyfres o reolau neu ddogfen lywodraethu, a bydd rhaid iddynt fod â chyfrif mewn banc neu gymdeithas adeiladu (yn enw'r sefydliad) gyda dau lofnodwr o leiaf wedi'u pennu.

**Amodau Grant Croeso Cynnes Rhaid i bob ymgeisydd ddilyn y canlynol:**

- Cofrestru eich cynnig a lleoliad 'Croeso Cynnes' ar wefan [Cyngor Gwynedd](#)
- Eich bod yn casglu data i.e. faint o unigolion , a faint o ymweliadau (yr unigolyn x nifer o weithiau) er mwyn i ni fedru adrodd yn ol i Lywodraeth Cymru.
- Hyblygrwydd fod yna gynnyg i bawb yn rhywle ( h.y. teuluoedd, pobl oed gwaith ac oriau gyda'r nos/yn ystod y dydd yn y ceisiadau
- Nid oes cyllid i dalu am logi adeiladau i redeg pethau ond yn hytrach adeiladau i agor eu drysau / ehangu eu oriau agor sydd yma, ac felly cyfraniad at gostau ychwanegol.

Dyma'r **Sefydliadau Cymwys** a gaiff wneud cais am gyllid:

- Grwpiau gwirfoddol, cymunedol
- Mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd, cwmnïau cymdeithasol, mentrau sy'n eiddo i'r gymuned, cwmnïau buddiannau cymunedol ar yr amod eu bod yn gweithredu ar sail ddielw

## Eithriadau

Ni fydd grantiau ar gael ar gyfer y canlynol:

- Sefydliadau masnachol
- Unigolion
- Ni all sefydliadau heb ddau lofnodwr (ni ddylent fod yn perthyn) ar gyfer pob trafodiad ariannol wneud cais
- Cynghorau Cymuned/Tref

## Llenwi'r Ffurflen Gais

### Adran 1: Amdanoch chi/eich sefydliad

- Dywedwch wrthym pwy ydych chi/pa ardal rydych yn gweithredu ynddi / sut mae cysylltu â chi?
- Pa fath o sefydliad ydych chi? (e.e. Clwb/cymdeithas wirfoddol, clwb/sefydliad ieuencid, elusen, grŵp amgylcheddol ac ati)
- Beth fydd eich mudiad yn ei wneud i gyd-fynd a cynllun 'Croeso Gynnes'

### Adran 2: Am eich prosiect

Dywedwch wrthym am eich prosiect.....

- Beth ydych chi eisiau ei wneud? Pam ydych chi eisiau ei wneud? (**Gan gymryd sylw o flaenoriaethau y grant**)
- Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud yn eich cymuned?
- A fydd yn darparu cyfle i bobl gymryd rhan a gwirfoddoli?
- Faint o bobl fydd yn elwa o'r prosiect yn eich barn chi?  
Pryd ydych chi eisiau cychwyn a dywedwch wrthym pryd fydd y prosiect yn gorffen? **Rhaid cwblhau a chyflwyno adroddiad am eich prosiect cyn diwedd Mawrth 2023 a bydd angen cadw cofnod o'r niferoedd sydd wedi cael budd o'r prosiect.**
- Dim ond trwy ddatgan yn glir beth rydych eisiau ei wneud bydd y panel asesu'n deall beth rydych yn ceisio ei wneud!
- Cofiwch, rhaid i chi dynnu sylw at fanteision y cynllun arfaethedig

Byddwch yn realistig am beth rydych yn ceisio ei gyflawni!

### Adran 3: Manylion Ariannol

- Mae'r adran hon yn delio â chostau'r prosiect.
- Dylech restru pob eitem rydych yn ceisio cyllid ar ei chyfer.
- Cost Llawn

### Gwybodaeth Werthfawr Arall:

- Bydd o fudd i ymgeiswyr ddangos cefnogaeth y gymuned i brosiect drwy gyfrwng llythyrau neu negeseuon e-bost annibynnol (dim mwy na 3)

### Yn dilyn derbyn cynnig unrhyw grant:

Bydd y person cyswllt yn derbyn llythyr/e-bost yn amlinellu penderfyniad y panel. Os bydd eich cais yn llwyddiannus rhaid i chi gytuno i:

- Cyflwyno derbyniadau ar gyfer yr holl wariant
- Defnyddio yr arian yn union yn ol y cais.
- **PWYSIG**  
**Byddwch yn cydnabod Mantell Gwynedd a'r Partneriaid fel ffynhonnell y grant ar unrhyw ddarn o lenyddiaeth hyrwyddo neu gyhoeddusrwydd trwy arddangos neu argraffu logo Mantell Gwynedd a logo Croeso Cynnes ar unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol.**
- Bydd yn ofynnol fel rhan o'r cynnig hwn, fod eich gweithgareddau yn cymryd i ystyriaeth **holl ofynion iechyd a diogelwch**, ac yn arbennig felly yr holl **ofynion a'r arweiniad o Lywodraeth Cymru sydd ynghlwm hefo Covid-19**

## **COFIWCH SIARAD Â SWYDDOG YN MANTELL GWYNEDD CYN CYFLWYNO EICH CAIS.**

**PWYSIG:** Rheoliad Diogelu Data ac Awdurdodi Defnydd (GDPR)

Bydd Mantell Gwynedd yn gweithredu ar ran **Cronfa Croeso Cynnes yn defnyddio'r manylion a gyflwynir yn fewnol at ddibenion gweinyddol**. I weld ein Polisi Preifatrwydd ewch i [www.mantellgwynedd.com](http://www.mantellgwynedd.com)



**Dychwelwch y Ffurflenni Cais wedi'i lenwi at:**

**Carys Williams**

**E-bost [carys@mantellgwynedd.com](mailto:carys@mantellgwynedd.com)**

**Neu**

**Arwen Evans**

**E-bost [arwen.evans@mantellgwynedd.com](mailto:arwen.evans@mantellgwynedd.com)**

